# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 01 Ionawr Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar Ddydd Mercher yr 11eg o Ionawr 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), y Cynghorwyr Carwyn James, Anne Sizmur, Annette Price, Delyth Richards, June Gunter, Graham Vaughan, Menna Roberts, E Audrey Jones, Keith Rees a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Henadur D Arnallt James a'r Cynghorwr Peter Cowell.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Roedd y Cynghorwr Delyth Richards wedi datgan diddordeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR y 14eg O RAGFYR 2005.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod cofnodion cyfarfod y 14eg o Ragfyr 2005 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd,.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Parc Betws.
Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur os oedd y Clerc wedi derbyn ymateb gan naill ai Mr Gerwyn Thomas neu Adran Gyfraith y Cyngor Sir ynglyn â'r ardd newydd. Dywedodd y Clerc nad yw hi wedi derbyn ateb hyd yn hyn. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os gallai'r Clerc fynd ar ôl y mater hwn. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn mynd ar ôl y mater hwn.

2.2 Noson Drosedd.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi siarad gyda'r trefnydd, a gobeithir bydd y noson drosedd yn cymryd lle ym mis Mawrth.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.3 Gordyfiant ar Lwybr Troed.
Adroddodd y Cynghorwr June Gunter bod y llwybr troed sy'n arwain o Heol Pentwyn a Thy Coch wedi gordyfu. Penderfynodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn i'r llwybr troed gael ei glirio fel y gall y trigolion lleol ei ddefnyddio.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.4 Torri Rheolaeth Cynllunio.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi hefyd wedi derbyn ateb tebyg gan y Cyngor Sir. Penderfynodd y Cynghorwyr bod y Clerc yn dilyn hwn ymhellach os nad oedd ymateb yn cael ei dderbyn mewn mis.
NODWYD: y pwynt uchod.

Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn dilyn ymhellach unrhyw lythyr lle nad yw yn derbyn ymateb. Cytunodd y Cynghorwyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees fod banc Nant y Ffin yn gwaethygu'n gyflym. Mae'r Cynghorwr wedi derbyn cwynion wrth drigolion sydd yn pryderu yn fawr oherwydd mae eu gerddi yn cael eu golchi i ffwrdd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.5 Safle Cymunedol.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Cyngor Cymuned y Betws wedi derbyn tystysgrif mewn cydnabyddiaeth o'i gyfraniad amlwg wrth greu safle cymunedol.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.6 Llwybrau Troed 3/12, 3/13 a 3/16.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd gan Mr Carlsen. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn dweud wrth Mr Carlsen nad yw Cyngor Cymuned y Betws am weithredu ynglyn â llwybr troed 3/16 ar hyn o bryd a bydd yn aros am ganlyniad y penderfyniad cynllunio. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Carlsen.

2.7 Parc Betws.
Gofynnod y Cynghorwr Annette Price os oedd y Clerc wedi derbyn ymateb ynglyn â'i llythyr am yr arwyddion 'dim baw cwn'. Hefyd dywedodd nad oes arwyddion newydd wedi cael eu gosod. Dywedodd y Clerc nad yw hi wedi derbyn ateb hyd yn hyn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn dilyn hyn ymhellach gydag Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.8 Cyfarfod Cyngor Cymuned Betws 14eg o Ragfyr 2005.
Ymddiheurodd y Cynghorwr Keith Rees oherwydd nad oedd wedi danfon ymddiheuriad am fod yn absennol yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Cymuned.
NODWYD: y pwynt uchod.

Nododd y Cynghorwr Anne Sizmur fod chwech o'r Cynghorwyr yn absennol o gyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Rhagfyr. Atgoffodd y cyngor pen na bai cworwm yn bresennol na fyddai'r Clerc wedi derbyn ei thâl. Cefnogodd y cynghorwr Delyth Richards y Cynghorwr Anne Sizmur.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.9 Goleuo'r Capel a'r Eglwys ym Metws.
Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis nad oes rhaid i'r Capel a'r Eglwys gael caniatad cynllunio i oleuo'r adeiladau, ond mae rhaid glynu wrth ofynion Iechyd a Diogelwch. Bydd rhaid holi am gost yr yswiriant hefyd. Cynigiodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Audrey Jones fod y Clerc yn holi am y gost o oleuo Capel Newydd ac Eglwys y Betws. Hefyd, bydd y Cynghorwyr Audrey Jones a Keith Rees yn gwneud ymholiadau ynglyn â'r goleuadau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol. Penderfynodd y Cynghorwyr fod ymholiadau pellach yn cael eu gwneud.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.10 Meddygfa Heol Margaret.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os oedd y Clerc wedi derbyn ymateb wrth Reolwr y Meddygfa. Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb hyd yn hyn. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price i'r Clerc i ddilyn hyn ymhellach os nad oes ymateb yn cael ei dderbyn mewn deufis.
NODWYD: y pwynt uchod.

3. GOHEBIAETH.
Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi'i chydnabod a nodwyd y cynnwys.
1. CCC - ynglyn â goleuadau llwybr troed am y flwyddyn ariannol 2006/2007.
2. Llywodraeth Cynulliad Cymru - Canllawiau Cynllun Lleihau Risg ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub.

3. Un Llais i Gymru Agenda a Chofnodion.
4. Rhoddwyd Llyfryn Newyddion Llinell Rheilffordd Calon Cymru i'r Cynghorwr Carwyn James.

4. MATERION CYNLLUNIO.
Roedd y cais cynllunio isod wedi cael ei drafod gan Gyngor Cymuned y Betws.
E/11998 - Amrywiad o Gyflwr 4 ynglyn ag amser plannu
Gwaith Glo y Betws, Rhydaman
T Richard Jones Betws Cyf. (25)

Cynigodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at Hugh Towns i ddweud nad yw Cyngor Cymuned y Betws yn gwrthwynebu’r gwelliant, ar yr amod bod y cynllun gwreiddiol ddim yn cael ei newid mewn unrhyw ffordd, ac eithrio'r amser plannu. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Hugh Towns.

5. CYFRIFON.
1. Rhodd - Eisteddfod Genedlaethol £100.00

CYTUNWYD: I dalu’r bil uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd yr Arolygwr Cymuned Tony Ward a PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd PC Kevin Jones fod 7 trosedd wedi’u cofnodii yn ardal y Betws ym mis Rhagfyr. Maent fel a ganlyn:-
3 achos yn ymwneud â chyffuriau, 1 lladrad o dy, 1 bygythiad i ladd, 1 niwed troseddol ac 1 meddiant ar arf peryglus. Ar hyn o bryd mae 2 drosedd wedi’u datrys.

Esboniodd yr Arolygwr Cymuned Tony Ward ei swydd newydd i'r Cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorwr Menna Roberts os yw’r disgo glas yn parhau. Esboniodd PC Kevin Jones fod yna broblem gyda’r ddeddf gyfreithiol newydd, ond gobeithir y bydd yn ail ddechrau ym mis Chwefror.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR
Adroddodd y Cynghorwr Sir John D Evans ar y materion canlynol:-
1 Nôl ym mis Hydref/Tachwedd y llynedd adroddodd fod yna ormodiaeth o ddwr yn ystod y glaw trwm ar hyd Heol Maescware ac iddo roi gwybod i Adran Cyflwr y Stryd. Mae’n meddwl nad yw’r cylfert sy'n gyfagos i Neuadd Maescware yn ddigon i gymryd yr holl law .
Adroddodd fod Adran Cyflwr y Stryd wedi dynodi ei bod i wella’r draeniau ym Metws. Mae eisiau’r gwaith i gael ei wneud yn fuan ger Neuadd Maescware.
NODWYD: y pwynt uchod.
2 Ymweld â Safle Gwaith Glo’r Betws nôl ym mis Hydref/Tachwedd llynedd - adroddodd fod y gweithredydd yn mynd i selio’r drifft ychwanegol mewn amser.
NODWYD: y pwynt uchod.
3 Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at y Clerc, i ofyn am gopïau o ohebiaeth sydd wedi'u derbyn a'u danfon i Un Llais Cymru ynglyn â'r Cyfarfod ar y 4ydd o Hydref 2005. Atgoffodd y Cynghorwyr am y Ddeddf Ryddhau Gwybodaeth.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon copïau o’r ohebiaeth mae hi wedi derbyn a danfon i Un Llais Gymru at y Cynghorwr Sir John D Evans.

8. CLWB DROS 50deg Y BETWS.
Rhoddodd y Cynghorwr Graham Vaughan adroddiad i’r Cynghorwyr yn y Cyfarfod anghyffredin cyn prif gyfarfod y Cyngor.

NODWYD: y pwynt uchod.

9. PENDERFYNU'R CYLLID AM 2006/2007.
Roedd copi o amcangyfrif y gwariant am y flwyddyn wedi cael ei ddanfon i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Trafodwyd pob eitem ar y rhestr yn fanwl.

Atgoffodd y Cynghorwr Anne Sizmur bod penderfyniad wedi cael ei wneud yn y Cyfarfod Blynyddol bod lwfans y Cadeirydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod cyllid nesaf. Cynigodd y Cynghorwr Anne Sizmur a chytunodd y Cynghorwyr fod lwfans y Cadeirydd yn aros ar £300 a hefyd fod yna restr o gostau yn cael ei rhoi i'r Clerc yn y Cyfarfod Blynyddol.

Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os gall Ysgol Gynradd Betws gael bin sbwriel broga arall. Dywedodd y Cynghorwr Carwyn James fydd hyn yn gallu cael ei drafod gan y tîm cyllido.

Cynigiodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Graham Vaughan fod yna godiad o 8% ar gyllid blwyddyn ddiwethaf. Ar ôl trafodaeth fer penderfynwyd, i ofyn am gyllid o £12,420 am y flwyddyn 2006/2007.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin am y ffigwr uchod.

10. UNRHYW FATER ARALL.
10.1 Ardal Chwarae Heol Y Felin.
Roedd y Cynghorwr Graham Vaughan yn poeni ynglyn â'r borfa ym Mharc Chwarae Heol y Felin. Mae'n cael ei chodi gan unigolion yn dod â beiciau modur trwy giatiau dwbl y parc gan nad ydynt ar glo. Esboniodd fod yna ddau fynediad i mewn i'r parc. Mae un yn cael ei ddefnyddio gan Adran Gofalaeth y Ddaear y Cyngor Sir er mwyn dod â pheiriannau torri porfa mewn i'r parc. Mae'r mynediad arall i gerddwyr yn unig. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Cyfreithlon Cyngor Sir Caerfyrddin i holi os oes unrhyw yymrwymiad cyfreithlon pe bai Cyngor Cymuned y Betws yn prynu a rhoi cadwyn a chlo ar y gatiau dwbl ar Ardal Chwarae Heol Y Felin.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at yr Adran Gyfreithlon o Gyngor Sir Caerfyrddin.

10.2 Baw Cwn.
Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees fod yna lawer iawn o faw cwn ar hyd Heol Y Cyrnol, Heol y Betws a hefyd ar lwybr troed Maes Y Betws, o Heol Maescware i Heol y Cyrnol. Mae yna hefyd ddiffyg arwyddion 'dim baw cwn' a biniau baw cwn. Cynigiodd y Cynghorwr Annette Price fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a fedrant chwilio i'r mater uchod a hefyd rhoi arwyddion 'dim baw cwn yn '. Hefyd gofynnodd i'r Clerc holi pa fin baw cwn mae'r Cyngor Sir yn defnyddio.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.